**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O GYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD DDYDD LLUN 26 MEDI 2022 AM 5.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:**

Cynghorwyr: E. M. Aldworth, C. Bishop, A. Farina-Childs, A. Gair, M. P. James, B. Miles, T. Parry (Cadeirydd), L. Phipps, M. Powell, J. Rao (Is-gadeirydd), J. E. Roberts, J. Winslade a K. Woodland.

Aelodau Cabinet: Y Cynghorwyr C. Andrews (Addysg a Chymunedau) a J. Pritchard (Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), L. Thomas (Ysgolion yr 21ain Ganrif – Prif Swyddog), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), Victoria Bodenham (Swyddog Gwella Ysgolion), Jamie Duggan (Pennaeth Cynorthwyol – Ysgol 3-18 Idris Davies), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor), J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) ac R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

| EITEM | PWNC | PENDERFYNIAD | PLEIDLAIS |
|---|---|---|---|
| 1. | Cael unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson ac C. Gordon, ynghyd â Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg). | Ddim yn berthnasol |
| 2. | Datganiadau o fuddiant. | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant. | Ddim yn berthnasol |
| 3. | Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol:<br><br>Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2022. | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2022 fel cofnod cywir. | 10 o blaid<br>0 yn erbyn<br>1 ymatal |
| 4. | Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn. | Ni chafodd unrhyw faterion eu galw i mewn. | Ddim yn berthnasol |
| 5. | Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg. | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac wrth nodi'r ddwy eitem ychwanegol, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms. | 11 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor. | |
| 6. | Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda. | Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod. | Ddim yn berthnasol |
| 7. | Diogelu. | Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg gynnwys yr adroddiad. | Dim angen pleidlais |
| 8. | Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu – Adroddiad Diweddaru ynghylch Ehangu Ysgol Cae'r Drindod | Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms.<br><br>Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg wedi:<br><br>a) Ystyried yr wybodaeth yn yr adroddiad, a chraffu arni.<br><br>b) Cymeradwyo'r argymhelliad i'r Cabinet i ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod drwy adeiladu estyniad deulawr ar ran o Faes Parcio'r Ysgol.<br><br>c) Gofyn i Swyddogion ymchwilio i opsiwn tymor hwy i greu ail ysgol arbennig yn y Fwrdeistref Sirol yn unol â Band C y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. | 13 o blaid<br>0 yn erbyn<br>0 ymatal |

**Dosbarthiad:**

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Llun 3 Hydref 2022.